# FFORWM MYNEDIAD LLEOL MERTHYR TUDFUL
# CYFARWYDDYD I DDARPAR AELODAU

## CEFNDIR

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn y broses o wahodd y cyhoedd i enwebu aelodau ar gyfer ei Fforwm Mynediad Lleol. Ffurfiwyd y Fforwm yn y flwyddyn 2000 ac mae newydd gwblhau ei dymor gwasanaeth diweddaraf.

Swyddogaeth y Fforwm yw cynghori'r Awdurdod Lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru a chyrff eraill ynghylch eu swyddogaethau dan Ran I o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy. Gwneir hynny mewn perthynas â gwella mynediad y cyhoedd i dir at ddibenion hamddena yn yr awyr agored a mwynhau'r ardal. Mae'n rhaid i'r cyrff hyn, yn ôl y gyfraith, roi sylw i gyngor perthnasol a roddir gan y Fforwm.

Mae'r Rheoliadau yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Fforwm gwrdd o leiaf ddwywaith y flwyddyn a gellir trefnu cyfarfodydd ychwanegol yn ôl yr angen.

## MEYSYDD GWAITH

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn y broses o adolygu ei Gynllun Gwella Hawliau Tramwy a bydd aelodau'r Fforwm Mynediad Lleol yn rhan annatod o'r adolygiad hwnnw. Bydd y cynllun dan sylw'n amlinellu'r modd y bydd yr Awdurdod Lleol yn rheoli ac yn gwella'r Rhwydwaith o Hawliau Tramwy Cyhoeddus dros y 10 mlynedd nesaf. Bydd y Fforwm yn gweithio gyda Thîm Hawliau Tramwy Cyhoeddus y Cyngor ac yn helpu i gynghori Swyddogion er mwyn sicrhau: bod y gwaith a wneir o fudd i bob defnyddiwr o ran ymarfer corff a llesiant meddyliol; bod y rhwydwaith yn cael ei reoli'n well; a bod strategaethau a nodau allweddol yn cael eu cyflawni.

Bydd y Fforwm yn ystyried pob math o fynediad, gan gynnwys marchogaeth, seiclo a gyrru oddi ar y ffordd - nid dim ond mynediad ar droed. Y Fforwm ei hun fydd yn penderfynu natur y gwaith hwn ar sail y strategaethau allweddol a'r amcanion allweddol a amlinellir yng Nghynllun Gwella Hawliau Tramwy Merthyr Tudful mewn cytundeb â'r Awdurdod Lleol.

Yn ôl y gyfraith, mae'n rhaid ymgynghori â Fforwm Mynediad Lleol ynghylch rhai materion. Mae'r rhain yn cynnwys:

**paratoi** mapiau drafft o dir agored a thir comin cofrestredig;
**penodi** wardeiniaid ar gyfer tir mynediad;
**llunio** is-ddeddfau sy'n ymwneud â thir mynediad;
**paratoi** neu adolygu Cynllun Gwella Hawliau Tramwy; a
**delio â cheisiadau** am waharddiadau hirdymor, neu gyfyngiadau ar gyrchu tir mynediad.

## MEINI PRAWF AR GYFER DETHOL

Mae'r canlynol yn rhestr o feini prawf a ddefnyddir ar gyfer dethol ceisiadau. Fodd bynnag, ni fydd ymgeiswyr o reidrwydd yn gorfod cydymffurfio â'r holl feini prawf er mwyn bod yn llwyddiannus.

**Mae'n hanfodol i aelod o'r FfMLl:**

**ymrwymo wrth swyddogaeth y Fforwm** sef cynghori'r Awdurdod Lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru ac eraill, ynghylch gwella mynediad y cyhoedd i dir at ddibenion hamddena yn yr awyr agored a mwynhau'r ardal;

**bod yn fodlon ac yn abl** i chwarae rhan lawn ym mhob agwedd ar waith y Fforwm – os na fydd yn fodlon neu'n abl i gynrychioli buddiannau heblaw rhai penodol a chul, efallai na fydd yn addas i fod yn aelod.

**Mae'n ddymunol i aelod o'r FfMLl:**

**fod ag ystod** eang o brofiadau'n ymwneud â materion mynediad yr ardal;

**bod â phrofiad** o weithio ar fforymau tebyg yn y gorffennol, a chyfrannu atynt;

**preswylio yn** ardal y Fforwm neu fod yn arbennig o gyfarwydd â hi, neu feddu ar unrhyw ddiddordebau eraill sy'n ymwneud â hi'n benodol;

**gallu** rhwydweithio ag ystod eang o sefydliadau ac unigolion, gyda'r nod o ledaenu gwaith y Fforwm;

**gallu** mynychu holl gyfarfodydd y Fforwm (ni chaniateir dirprwyon).

**Rhoddir ystyriaeth ffafriol** i ymgeiswyr sy'n cynrychioli anghenion ieuenctid, symudedd a/neu synhwyraidd a/neu grwpiau ethnig.

Swyddi di-dâl yw'r rhain ond **gall** aelodau'r Fforwm hawlio treuliau rhesymol gan gynnwys costau gofal i blant a dibynyddion oedrannus neu anabl.

Os hoffech gael eich ystyried ar gyfer aelodaeth, a fyddech mor garedig â llenwi'r ffurflen gais a'i dychwelyd drwy e-bost i **rightsofway@merthyr.gov.uk**

**Rhaid cyflwyno ffurflenni cais wedi'u cwblhau erbyn dydd Gwener, 2 Medi 2022**

# FFORWM MYNEDIAD LLEOL MERTHYR TUDFUL

**Sylwer: Rhaid cyflwyno ffurflenni cais wedi'u cwblhau erbyn dydd Gwener, 2 Medi 2022.**

**Ffurflen Gais am Aelodaeth**

Enw: …………………………………………………………………………………………

Cyfeiriad: ………………………………………………………………………..……………

Rhif Ffôn Cartref: ......………………………………………………………………………….

Rhif Ffôn yn ystod y dydd: …………………………………………………………………….

E-bost: ......................................................................................................................

Swydd: ……......................……………………………………………………………….

Sut daethoch i wybod am y Fforwm Mynediad Lleol? .....................................................

Nodwch pam y byddech chi'n gwneud Aelod da o'r Fforwm Mynediad Lleol, yn eich tyb chi. Yn benodol, dylech gysylltu eich ymateb â'r *"Meini Prawf Dethol"* amgaeedig ar y *"Cylch Gorchwyl Enghreifftiol ar gyfer Fforymau Mynediad Lleol"*.

*Defnyddiwch ddalen blaen ychwanegol os oes angen.*



**Mae'r ffurflen hon ar gael yn Saesneg / This form is available in English**

*Rwy'n datgan hyd eithaf fy ngwybodaeth fod y wybodaeth a gyflwynaf yn gywir ac yn gyflawn.*

Llofnod: ……………………………………………………………………………………..

Dyddiad: ……………………………………………………………………………………..



**Mae'r ffurflen hon ar gael yn Saesneg / This form is available in English**

**CYFLE CYFARTAL**

Er mwyn sicrhau bod ein Polisi Cyfle Cyfartal yn effeithiol, byddem yn ddiolchgar petaech yn llenwi'r manylion isod. Bydd y ffurflen hon yn cael ei gwahanu oddi wrth y ffurflen gais ac ni chaiff ei defnyddio yn y broses ddethol.

**Rhywedd** ☐ Gwryw ☐ Benyw ☐ Arall ☐ Dewis peidio â dweud

**Oed**

☐ 18-24 ☐ 25-34 ☐ 35-44 ☐ 45-54 ☐ 55-64 ☐ 65-74

☐ 75+ ☐ Dewis peidio â dweud

**Tras Ethnig** (Ticiwch)**:**

☐ Gwyn ☐ Du ☐ Asiaidd

☐ Cymysg ☐ Dewis peidio â dweud

Arall (nodwch) ___________________________________

**Ydych chi'n ystyried eich hun fel rhywun anabl?**

☐ Ydw ☐ Nac ydw ☐ Dewis peidio â dweud

**Allwch chi siarad Cymraeg?** (Ticiwch)

☐ yn rhugl ☐ â gwybodaeth ddigonol ☐ fel Dysgwr - Dechreuwr

☐ fel Dysgwr - Canolradd ☐ fel Dysgwr - Uwch ☐ Na

## CYLCH GORCHWYL ENGHREIFFTIOL AR GYFER FFORYMAU MYNEDIAD LLEOL

**TEITL:**

1. Gelwir y Fforwm Mynediad Lleol yn "Fforwm Mynediad Lleol Merthyr Tudful".

**ROLAU A CHYFRIFOLDEBAU:**

2. Swyddogaeth Fforwm Mynediad Lleol Merthyr Tudful yw rhoi cyngor i'r Awdurdod Lleol a'r Awdurdod Parc Cenedlaethol perthnasol, Cyfoeth Naturiol Cymru a chyrff priodol eraill, ynglŷn â gwella mynediad y cyhoedd i'r ardal wrth iddynt hamddena yn yr awyr agored a mwynhau'r tir o'u cwmpas. Y nod yw gwneud hynny mewn ffyrdd sy'n ystyriol o reolaeth y tir ac o fuddiannau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol ac addysgiadol.

3. Bydd Fforwm Mynediad Lleol Merthyr Tudful yn cyflawni'r rôl hon drwy roi cyngor ar faterion sy'n arbennig o berthnasol yn lleol, gan gynnwys:

   a. cefnogi'r gwaith o weithredu'r hawl mynediad newydd i gefn gwlad agored;

   b. gwella'r rhwydwaith hawliau tramwy; a

   c. datblygu strategaethau hamddena a mynediad sy'n cynnwys pawb.

4. Bydd Fforwm Mynediad Lleol Merthyr Tudful yn gweithio i:

   a. ddatblygu ymagwedd adeiladol a chynhwysol i wella mynediad i gefn gwlad ar gyfer hamddena;

   b. parchu amgylchiadau lleol a gwahanol ddiddordebau wrth weithredu o fewn canllawiau cenedlaethol;

   c. rhoi cyngor ar faterion o egwyddor ac arfer da;

   d. cymryd rhan mewn trafodaeth adeiladol a cheisio sicrhau consensws os oes modd; a

   e. phan nad oes modd sicrhau consensws, egluro natur y gwahanol ddaliadau ac awgrymu ffyrdd o'u datrys.

**AELODAETH**

5. Ymhlith yr aelodau, ceir:

   a. Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd a etholir yn unol â rheoliadau'r Fforwm;

   b. isafswm o 10 ac uchafswm o 20 aelod arall. Rhaid i'r rhain fod yn gynrychiolaeth gytbwys o i) y rhai sydd am fynediad i hamddena a ii) tirfeddianwyr a phreswylwyr – ynghyd â chynrychiolaeth o fuddiannau eraill sy'n arbennig o berthnasol i'r ardal.

6. Bydd yr aelodaeth:

   a. yn gytbwys i osgoi cael gormod o un grŵp buddiant penodol;



**Mae'r ffurflen hon ar gael yn Saesneg / This form is available in English**

b. yn cynrychioli croestoriad o fuddiannau yn yr ardal; ac

c. yn byw ac yn gweithio yn yr ardal neu'n adnabod yr ardal yn dda.

7. Disgwylir i aelodau wneud y canlynol:

a. glynu wrth adrannau o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy a'r rheoliadau sy'n ymwneud â Fforymau Mynediad Lleol, a'r Cylch Gorchwyl hwn;

b. dangos ymrwymiad i gyflawni nodau'r Fforwm Mynediad Lleol drwy weithio'n adeiladol gydag aelodau eraill;

c. gallu rhoi'r amser angenrheidiol i fynychu cyfarfodydd a rhwydweithio y tu allan iddynt;

d. meddu ar brofiad digonol o fynediad i gefn gwlad yn yr ardal leol er mwyn gallu gwneud cyfraniad adeiladol a gwybodus at wella'i hygyrchedd; a

e. gallu gweithio gydag ystod eang o grwpiau buddiant.

**GWEINYDDU**

**YSGRIFENYDDIAETH**

8. Bydd yr Awdurdod Penodi yn apwyntio Ysgrifennydd ar gyfer Fforwm Mynediad Lleol Merthyr Tudful i fod yn gyfrifol am:

a. ddarparu cefnogaeth i Gadeirydd y Fforwm;

b. sicrhau y caiff y Fforwm ei sefydlu a'i redeg yn unol â Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, Rheoliadau'r Fforwm Mynediad Lleol a'r Cylch Gorchwyl hwn;

c. rheoli unrhyw adnoddau sy'n gysylltiedig â gwaith y Fforwm;

d. trefnu a hyrwyddo cyfarfodydd, gan gynnwys sicrhau bod papurau a gwybodaeth yn cael eu dosbarthu i aelodau'r Fforwm a'r cyhoedd;

e. cynhyrchu cofnodion o gyfarfodydd y Fforwm.

**CYFARFODYDD**

9. Cynhelir cyfarfodydd o leiaf ddwywaith y flwyddyn ac yn amlach yn ôl yr angen; cytunir ar hyn rhwng y Fforwm a'r Awdurdod Penodi.

10. Cytunir ar agendâu'r cyfarfodydd rhwng y Cadeirydd, y Dirprwy Gadeirydd a'r Ysgrifennydd - ond gall unrhyw aelod awgrymu eitemau i'w hystyried.


**Mae'r ffurflen hon ar gael yn Saesneg / This form is available in English**

11. Hysbysebir cyfarfodydd o flaen llaw a chyhoeddir y cofnodion.

12. Bydd y Cadeirydd yn gwahodd arsylwyr/ymgynghorwyr i'r cyfarfodydd pan fydd hynny'n briodol.

13. Bydd yr arsylwyr/ymgynghorwyr yn gallu cyfrannu at y cyfarfodydd os bydd y Cadeirydd yn cytuno.

14. Bydd un cynrychiolydd o Gyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru ac unrhyw swyddog o'r Awdurdod Penodi, yn cael statws arsylwi yn awtomatig.

15. Os bydd angen, sefydlir Pwyllgorau Fforwm Mynediad Lleol gan y Cadeirydd pan fydd yr aelodau'n gytûn.

16. Cytunir ar Gylch Gorchwyl y Pwyllgorau ynghyd â'r Gadeiryddiaeth a'r Aelodaeth gan y Cadeirydd a'r Aelodau.

17. Caiff pob cyfarfod o'r Fforwm ei gynnal yn gyhoeddus. Fodd bynnag, gall y sawl sy'n llywyddu, yn dilyn cais gan aelod neu aelodau, benderfynu y dylid gwahardd y cyhoedd rhag rhai eitemau am resymau preifatrwydd personol neu gyfrinachedd masnachol.

18. Caiff cyfarfodydd eu cynnal mewn amryw o fformatau gan gynnwys cwrdd yn bersonol ac ar blatfform Microsoft Teams.

---

**Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (RhDDC)**

Prosesir y wybodaeth yr ydych yn ei rhoi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn unol â gofynion y RhDDC a'r Ddeddf Diogelu Data.

- Bydd y cais hwn yn cael ei gadw'n gyfrinachol ac yn cael ei ddefnyddio at y diben o benodi aelodaeth Fforwm Mynediad Lleol Merthyr Tudful yn unig. Ar ôl i dymor tair blynedd y Fforwm ddirwyn i ben, caiff y ceisiadau eu gwaredu yng ngwastraff cyfrinachol y Cyngor.

- Dim ond yr enwau a benodwyd i'r Fforwm a gaiff eu gosod ar www.merthyr.gov.uk, ar ei dudalen we, ac yn y cofnodion a argraffir o'i gyfarfodydd cyhoeddus.

Os hoffech i'ch enw beidio â chael ei gynnwys yn y cyhoeddiadau, mae croeso ichi roi gwybod i'r Tîm Hawliau Tramwy Cyhoeddus, y Ganolfan Ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful, CF47 8AN; e-bost: rightsofway@merthyr.gov.uk

I gael rhagor o wybodaeth am ofynion diogelu data'r Cyngor, cofiwch gysylltu â'r Swyddog Diogelu Data, y Ganolfan Ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful, CF47 8AN; e-bost: FOI@merthyr.gov.uk